**Cyfarfod: Y Cyd-bwyllgor Archwilio**
**Lleoliad: Trwy gyfrwng Teams**
**Dyddiad: 29 Ionawr 2025**
10am – 1.05pm

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Ms Kate Curran (KC) Cadeirydd<br>Mr Farhan Shakoor (FS)<br>Ms Julie James (JJ)<br>David Macgregor (DM)<br>Ms Caroline Wheeler (CW) |
| **Mynychwyr y Cyd-bwyllgor Archwilio** | Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu a Throseddu (DLl)<br>Dr Richard Lewis, Prif Gwnstabl (PG)<br>Ms Carys Morgans, Prif Swyddog Gweithredol (CM)<br>Mr Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (EH)<br>Ms Nicola Davies, Prif Swyddog Cyllid (ND)<br>Ms Fiona Roe, TIAA (FR)<br>Mr Jonathon Maddock, TIAA (JM)<br>Ms Angela Antunovich, TIAA (AA)<br>Ms Gaynor Maddox, Pennaeth Rhaglenni a Newid (GM)<br>Ms Michelle Reynolds, Pennaeth Cyllid Dros Dro (MR)<br>Ms Debby Jones, Rheolwr Gwybodaeth (DJ)<br>Mr Steve Cadenne, Pennaeth Cyflenwi Gwasanaethau Adnoddau Dynol (SC)<br>Mr Steve Bergiers, Uwch Reolwr, Diogelwch a Chynaliadwyedd (SB)<br>Mr Neil Evans, Rheolwr Busnes SCHTh (NE) |
| **Ymddiheuriadau** | Ms Beverley Peatling, Prif Swyddog Cyllid<br>Ms Linda Williams, Cyfarwyddwr Datblygu Pobl a’r Sefydliad<br>Mr Gareth Parry, Pennaeth Gwasanaethau Fflyd<br>Mr Jason Blewitt, Archwilio Cymru<br>Ms Aneesa Ali, Archwilio Cymru |
| **Datganiadau o fuddiant:** | Dim |

Heddlu Police DYFED-POWYS

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

| | CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O'R CYFARFOD AR 31 Gorffennaf 2024 | | |
|---|---|---|---|
| **Rhif y cam gweithredu** | **Crynodeb o'r cam gweithredu** | **I'w symud ymlaen gan** | **Cynnydd** |
| A14 | Bod y pwyllgor yn cynnal hunanasesiad o'r broses archwilio mewnol a gynhaliwyd gan TIAA ymhen 12-18 mis. | Prif Swyddog Cyllid | Ar y gweill – cynhelir hunanasesiad o'r broses archwilio mewnol ac adroddir yn ôl i'r pwyllgor yn ystod 2025/2026 |
| A24 | Bod ystyriaeth yn cael ei roi i gynnwys adolygiad o bolisi a gweithdrefnau chwythu'r chwiban yng Nghynllun Blynyddol Archwilio Mewnol 2025-2026 | Grŵp Llywodraethu Archwilio | Ar y gweill – Bydd hyn yn cael ei ystyried gan y Grŵp Llywodraethu Archwilio |
| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O'R CYFARFOD AR 2 Hydref 2024 | | | |
| **Rhif y cam gweithredu** | **Crynodeb o'r cam gweithredu** | **I'w symud ymlaen gan** | **Cynnydd** |
| A35 | Bod y pwyllgor yn derbyn adroddiad diweddaru ar y cynnydd sy'n cael ei wneud ar y camau gweithredu a gynhwysir yn Rhestr Wirio Rheolaeth Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ymhen chwe mis. | Cyfarwyddwr Cyllid | **Ar y gweill:** bydd adroddiad yn cael ei gynnwys ar agenda'r cyfarfod a gynhelir ym mis Mawrth 2025. |
| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O'R CYFARFOD AR 5 Rhagfyr 2024 | | | |
| **Rhif y cam gweithredu** | **Crynodeb o'r cam gweithredu** | **I'w symud ymlaen gan** | **Cynnydd** |
| A 45 | Bod adolygiad o'r defnydd o daenlenni fel modd o gofnodi gwybodaeth iechyd a diogelwch yn cael ei gynnal a chysylltu â Heddlu Gogledd Cymru i nodi arferion gorau posibl. | SB | **Ar y gweill:** Gwneir cysylltiadau â Heddlu Gogledd Cymru i nodi arferion gorau posibl a darparu diweddariad i'r pwyllgor. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| A 46 | Bod y geiriad mewn perthynas â Dangosydd Darbodus 7 yn adroddiad Rheoli'r Trysorlys yn cael ei wneud yn gliriach yn yr adroddiad diwedd blwyddyn. | MR | **Ar y gweill:** Bydd hwn yn cael ei gynnwys yn Adroddiad Rheoli'r Trysorlys diwedd blwyddyn |
| A48 | Bod y polisi gwyngalchu arian yn cael ei grybwyll yn y polisi twyll a gwrthlygredigaeth. | HD | **Ar y gweill:** Mae'r polisi twyll yn cael ei adolygu ar hyn o bryd a bydd gwyngalchu arian yn cael ei gynnwys yn y polisi diwygiedig. |

### 3. I gadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2024

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2024 fel cofnod cywir gan y pwyllgor.

### 4. Adolygiad o Gamau Gweithredu Heb eu Cyflawni

Trafododd y pwyllgor y camau gweithredu heb eu cyflawni o'r cyfarfodydd blaenorol fel a ganlyn: -

A24 – nodwyd bod y polisi chwythu'r chwiban wedi'i ddiwygio'n ddiweddar gydag ychydig iawn o newidiadau a byddai hwn yn cael ei ddosbarthu i'r aelodau y tu allan i'r cyfarfod.

A 31 – nodwyd bod Pennaeth Strategaeth a Pholisi Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) yn cyfarfod yn rheolaidd â Chofrestrydd Troseddau a Digwyddiadau'r heddlu i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau mewn perthynas â chofnodi troseddau. Mae eu cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 4 Chwefror, lle byddant yn trafod trosolwg o'r argymhellion ac yn ceisio sicrwydd ar gynnydd. Cytunwyd nodi bod y cam hwn wedi'i gwblhau ac i SCHTh adrodd yn ôl i'r pwyllgor pe byddai unrhyw faterion.

A 38 – "Bod cyfarfod yn cael ei drefnu rhwng aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio, TIAA ac Archwilio Cymru – gellir nodi bod hwn wedi'i gwblhau gan fod y cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer 10 Chwefror 2025.

Yng nghyfarfod y pwyllgor a gynhaliwyd ym mis Hydref 2024, nodwyd efallai bod cam gweithredu wedi'i godi mewn perthynas â'r aelodau'n gweld y fframwaith rheoli risg.

**Cam Gweithredu A49 – Bod y polisi chwythu'r chwiban diwygiedig yn cael ei ddosbarthu i'r aelodau.**

**Cam Gweithredu A50 – NE i ail-wylio'r recordiad o gyfarfod mis Hydref a nodi a oes unrhyw gamau heb eu cymryd mewn perthynas â'r fframwaith rheoli risg.**

## 5. Cynllun Gwaith y Cyd-bwyllgor Archwilio

Dywedodd NE wrth y pwyllgor fod y diwygiadau a awgrymwyd yn y cyfarfod diwethaf wedi'u cwblhau a gofynnodd i'r pwyllgor nodi bod gwall dyblygu gan fod yr adolygiad sicrwydd o'r Cynllun Heddlu a Throseddu wedi'i gynnwys ddwywaith.

Nodwyd bod angen cynnwys cylch gorchwyl y Cyd-bwyllgor Archwilio yn y ddogfen weithio.

Dywedodd GM efallai y bydd angen newid rhai dyddiadau adrodd i gynnwys rhai darnau allweddol o waith sydd wedi'u cynnwys ar gynllun gwaith y pwyllgor.

**Cam Gweithredu A51 – Bod cylch gorchwyl y Cyd-bwyllgor Archwilio yn cael ei gynnwys yn nogfen weithio y cynllun gwaith.**

**Cam Gweithredu A52 – Bod NE a GM yn cyfarfod i sicrhau bod dyddiadau cyfarfodydd yn cael eu halinio i alluogi'r pwyllgor i gyflawni ei gyfrifoldebau.**

## 6. Derbyn diweddariad o gyfarfod y Grŵp Llywodraethu Archwilio a gynhaliwyd ar 14 Ionawr 2025.

Darparodd MR ddiweddariad gan y Grŵp Llywodraethu Archwilio a gynhaliwyd ar 14 Ionawr 2025. Dywedodd MR fod dogfen ychwanegol i'r pwyllgor ei hystyried mewn perthynas â'r adolygiadau cydweithredol sydd wedi'u cynllunio neu sydd eisoes wedi'u cynnal. Roedd y ddogfen hon yn galluogi'r aelodau i ddeall unrhyw oedi wrth baratoi adroddiadau'r adolygiadau.

Gofynnodd JJ pam fod oedi o hyd mewn perthynas ag argymhellion 272560 a oedd yn deillio o adolygiad cydweithredol 2022/2023 o adnoddau dynol a defnyddio system recriwtio Oleeo. Cadarnhaodd MR fod hyn yn ymwneud ag oedi gan Heddlu Gogledd Cymru ac y byddai hyn yn cael ei nodi eto yn ystod y cyfarfod Cymru gyfan.

Nododd yr aelodau fod argymhelliad agored o hyd mewn perthynas â pharhad busnes a bod y dyddiad cau wedi'i ymestyn i ddiwedd mis Mawrth 2025. Dywedodd GM mai'r rheswm am hyn oedd oedi o ran profi, fodd bynnag, mae senarios wedi'u

hysgrifennu ac maent yn fanylach nag o’r blaen. Mae’r holl brofion wedi’u hamserlennu, sy’n bodloni’r dyddiad cyflwyno newydd.

Nododd KC ei bod yn ymddangos bod cryn dipyn o amser ers cynnal adolygiad a farnwyd ei fod yn rhoi sicrwydd cyfyngedig yn unig. Roedd adolygiadau bellach bob amser yn rhoi sicrwydd rhesymol neu sylweddol. Awgrymwyd hefyd y gallai’r berthynas rhwng archwilwyr a chleientiaid fod yn un cyfarwydd. Dywedodd JM fod sicrwydd cyfyngedig wedi’i ddyrannu i adolygiad yn ddiweddar ond derbyniodd y pwynt ynghylch perthynas cyfarwydd, a dywedodd ymhellach fod TIAA yn cylchdroi staff lle bo modd. Nododd JM ymhellach y bydd yn ystyried dyrannu archwilwyr fel rhan o’r broses gynllunio ar gyfer adolygiadau yn y dyfodol.

**7. Ystyried camau gweithredu cyfarfod y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2025 (Cyfarwyddwr Cyllid)**

Ystyriodd yr aelodau ddiweddariad am gyfarfod y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol gan y Cyfarwyddwr Cyllid. Dywedwyd wrth y pwyllgor y byddai Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF yn cael ei gynnal ym mis Mai 2026. Hysbyswyd yr aelodau hefyd bod Swyddog Polisi’r heddlu wedi gofyn yn y cyfarfod am rywfaint o gefnogaeth gan yr Adran Safonau Proffesiynol i ddiweddaru polisïau yn y maes hwnnw a ddygwyd ymlaen gan Brif Weithredwr SCHTh ym Mwrdd Sicrwydd yr Adran Safonau Proffesiynol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid ymhellach fod y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol hefyd wedi myfyrio ar amserlenni archwiliadau, yn enwedig yr amser rhwng cwblhau archwiliad a chyflwyno’r adroddiad drafft.

**8. Ystyried yr adroddiadau canlynol gan yr archwilwyr mewnol:**

**a. Ystyried yr Adroddiad Cryno ar Sicrwydd Rheolaethau Mewnol (SICA) 2023/2024**

Ystyriodd y pwyllgor Adroddiad Cryno ar Sicrwydd Rheolaethau Mewnol (SICA) a dywedwyd wrthynt y byddai adroddiad blynyddol yn cael ei gyflwyno ym mis Mawrth ond bod y cynlluniau ar y trywydd iawn.

Nododd yr aelodau gamgymeriad mewn dyddiadau yn yr adroddiad mewn perthynas â’r adolygiad ar seiberddiogelwch a dylid ei ddiwygio i fis Ionawr 2025.

**Cam Gweithredu A53 – JM i adolygu adroddiad SICA i sicrhau bod y dyddiadau cywir yn cael eu cynnwys.**

## b. Ystyried yr Adolygiad Cydweithredol o Storfeydd Iwnifform

Ystyriodd y pwyllgor Adolygiad Cydweithredol o Storfeydd Iwnifform a dywedwyd ei fod wedi cael sicrwydd rhesymol. Cafodd yr adolygiad ddau argymhelliad blaenoriaeth 2: un yn ymwneud â'r angen i greu dogfen heddlu ar gyfer gweithredu storfeydd iwnifform a'r ail yn ymwneud â'r angen i ddod o hyd i wasanaeth teilwra ychwanegol. Cafodd yr adolygiad ddau argymhelliad blaenoriaeth 3 hefyd: un yn ymwneud â'r angen i roi ar waith rhybuddion am isafswm y lefel stoc ar system Agresso Business World, a'r ail y dylid cynnal cofnod ffurfiol o bob cais am eitemau iwnifform a chymeradwyaethau.

Dywedodd y Prif Gwnstabl (PG) nad oedd proses ffurfiol ar waith mewn perthynas â'r gwasanaeth teilwra oherwydd lleiafswm y gofyn am y gwasanaeth, fodd bynnag, nodwyd a chytunwyd bod angen gwydnwch yn y maes hwn pe bai cynnydd yn y galw.

Nododd yr aelodau'r amserlenni ar gyfer gweithredu'r argymhellion a theimlwyd bod rhai yn afrealistig a gofynnwyd a oedd gan TIAA gyfle i herio dyddiadau. Dywedodd JM fod yr adroddiadau'n cael eu cymeradwyo unwaith y bydd yr argymhellion wedi'u cytuno ond roedd yn derbyn y dylai TIAA ystyried yr amserlenni a herio lle roedden nhw'n meddwl eu bod yn amhriodol.

Gofynnodd yr aelodau pa mor aml y mae polisïau'n cael eu hadolygu o ystyried nad oedd y polisi iwnifform wedi'i adolygu ers 2019. Dywedodd GM fod polisïau'n cael eu hadolygu bob tair blynedd fel rheol, ond, mewn rhai meysydd mae polisïau'n cael eu hadolygu'n flynyddol lle mae newidiadau rheolaidd i ddeddfwriaeth.

Nododd y cadeirydd fod yr adolygiad diwethaf o bolisi iwnifform Dyfed-Powys yn 2019 a gofynnodd a oedd y mater hwn wedi'i godi fel rhan o'r adolygiad. Cytunodd JM fel rhan o'r adolygiad y dylid bod wedi amlygu bod y polisi wedi dyddio a bod angen ei adolygu. Cytunwyd y dylai TIAA ystyried hyn fel rhan o adolygiadau yn y dyfodol i sicrhau bod polisïau'n cael eu diweddaru a'u hadolygu mewn modd amserol.

**Cam Gweithredu A54 – Bod TIAA yn ystyried y polisïau perthnasol fel rhan o'u hadolygiadau a'u cynnwys yn eu hargymhellion pan fo polisi wedi dyddio ac angen adolygiad.**

## c. Ystyried yr Adolygiad Sicrwydd o Fetio

Ystyriodd y pwyllgor Adolygiad Sicrwydd o Fetio a dywedwyd wrthynt fod yr adolygiad wedi cael sicrwydd sylweddol.

Nododd yr aelodau fod risg ar Gofrestr Risgiau Corfforaethol yr heddlu mewn perthynas â fetio a nodwyd y cyfeiriwyd at hyn yn y prif adroddiad, ond gwnaethant y sylw efallai nad oedd yn cael ei ystyried yn ddigon manwl o ystyried natur y risg. Derbyniodd y pwyllgor fod adnoddau ychwanegol wedi'u hychwanegu i ymdrin â'r materion blaenorol.

O ystyried canlyniad yr adolygiad, awgrymodd yr aelodau fod cwmpas yr adolygiad wedi bod yn rhy gyfyng ac y dylai fod wedi cynnwys ffocws er mwyn i'r adolygiad edrych ar effeithlonrwydd y broses fetio.

**ch. Ystyried yr Adolygiad Sicrwydd o Reoli Adnoddau Dynol – Strategaeth Llesiant**

Ystyriodd y pwyllgor Adolygiad Sicrwydd o Reoli Adnoddau Dynol – Strategaeth Llesiant a dywedwyd wrthynt fod yr adolygiad wedi cael sicrwydd sylweddol. Roedd yr adolygiad wedi cael un argymhelliad blaenoriaeth 2 mewn perthynas â'r angen i adolygu polisïau penodol, ac argymhelliad blaenoriaeth 3 pellach mewn perthynas ag adolygiad o'r camau gweithredu sydd ar waith i weithredu safonau Fframwaith Llesiant Golau Glas.

Nododd yr aelodau argymhelliad blaenoriaeth 2, a nodwyd efallai na fyddai'r polisïau i'w hadolygu yn effeithio'n uniongyrchol ar lesiant a gofynnwyd am adroddiad ysgrifenedig manylach i'w gyflwyno i gyfarfod nesaf y Bwrdd Pobl, Diwylliant a Moeseg.

Dywedodd SC fod tua 80% o'r camau gweithredu wedi'u cwblhau mewn perthynas â safonau Fframwaith Llesiant Golau Glas ond bod gwaith ar bob colofn wedi dechrau.

**Cam Gweithredu A55 – Bod adroddiad manylach ar adolygu polisi yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Bwrdd Pobl, Diwylliant a Moeseg.**

**d. Ystyried yr Adolygiad Sicrwydd o Reoli Adnoddau Dynol – Sgiliau Arweinyddiaeth**

Ystyriodd y pwyllgor Adolygiad Sicrwydd o Reolaeth AD – Sgiliau Arweinyddiaeth a oedd wedi cael sicrwydd sylweddol heb unrhyw argymhellion.

Nododd yr aelodau ganlyniad cadarnhaol yr adolygiad.

**dd. Ystyried yr Adolygiad Sicrwydd o TGCh a Seiberddiogelwch**

Bu'r pwyllgor yn ystyried yr Adolygiad Sicrwydd o TGCh a Seiberddiogelwch a dywedodd TIAA fod yr adolygiad wedi cael sicrwydd rhesymol a saith argymhelliad blaenoriaeth 3, yn ymwneud yn bennaf â hyfforddiant:

- Dadansoddiad anghenion hyfforddi i'w gynnal;
- Hyfforddiant seiberddiogelwch a noddir gan uwch swyddogion i'w roi ar waith;
- Staff mewn swyddi risg uchel i gael hyfforddiant seiber uwch;
- Adolygu dulliau hyfforddi seiber;
- Hyfforddiant i'w ffurfioli a'i adnewyddu'n flynyddol;
- Gweithredu ymgyrch ymwybyddiaeth seiberddiogelwch;
- Gweithredu polisi rheoli mynediad.

Gofynnodd yr aelodau a ddylid cynnwys risg technoleg ar y gofrestr risg gorfforaethol. Cynghorodd GM os oes risg, yna ei fod yn cael ei gofnodi a'i reoli ar y gofrestr risg adrannol.

Nododd yr aelodau gwmpas cynhwysfawr yr adolygiad a gofynnwyd a oedd yr adolygiad yn edrych ar yr agweddau polisi neu ar brofi a monitro'r cofnodion profi. Dywedodd AA fod yr adolygiad yn edrych ar y polisi ond hefyd yn cefnogi tystiolaeth a oedd yn cynnwys sgrinluniau o ymarferion profi. Roedd yn cael sicrwydd hefyd o atebion i'r cwestiynau a ofynnwyd fel rhan o'r adolygiad.

Nododd yr aelodau ymhellach gan fod gan yr archwiliad hwn gwmpas cynhwysfawr y gallai fod wedi bod yn fwy buddiol pe bai wedi canolbwyntio ar dri maes penodol.

Mynegwyd pryder gan yr aelodau mewn perthynas â sylwadau'r rheolwyr ar yr argymhellion gan eu bod i gyd yr un fath ond cytunwyd y byddai'r gweithrediad yn cael ei fonitro drwy'r Bwrdd Sicrwydd Gwybodaeth. Mynegwyd pryder pellach mewn perthynas â nifer yr argymhellion mewn perthynas â hyfforddiant a'r hyn a oedd yn ymddangos yn ddiffyg hyfforddiant a chytunwyd y dylid monitro hyn hefyd drwy'r Bwrdd Sicrwydd Gwybodaeth.

Gofynnodd yr aelodau ymhellach, fel rhan o adolygiadau ac adroddiadau terfynol yn y dyfodol, y dylid cynnwys pwyntiau bwled yn amlygu sut yr oedd yr adolygiad yn symud ymlaen o ran cwmpas, sylwadau rheolwyr i ganfyddiadau eraill fel bod yr adroddiadau'n llifo.

Mynegodd yr aelodau bryder am yr yswiriant mewn perthynas â seiberddiogelwch a gofynnwyd a oedd y ffigur o £100,000 yn gywir.

**Cam Gweithredu A56 – Bod y Bwrdd Sicrwydd Gwybodaeth yn monitro gweithrediad yr argymhellion yn yr adolygiad TGCh a Seiberddiogelwch ynghyd â diweddariadau ar hyfforddiant.**

**Cam Gweithredu A57 – Bod TIAA yn ystyried sut i wella fformat yr adroddiadau i sicrhau llif mwy effeithlon ac adrodd yn ôl i aelodau y tu allan i gyfarfod yn ffurfiol.**

**Cam Gweithredu A58 – Gofynnir am eglurhad ynghylch y lefelau yswiriant a briodolir i seiberddiogelwch.**

### e. Ystyried yr Adolygiad Sicrwydd o'r Cynllun Heddlu a Throseddu

Ystyriodd y pwyllgor Adolygiad Sicrwydd o'r Cynllun Heddlu a Throseddu a oedd wedi cael sicrwydd sylweddol heb unrhyw argymhellion.

Nododd yr aelodau ganlyniad cadarnhaol yr adolygiad

## 9. Adolygiad Cydweithredol Diwygiedig o Ddiogelu Data

Ystyriodd yr aelodau adroddiad yr Adolygiad Cydweithredol o Ddiogelu Data. Nododd yr aelodau eu bod wedi gofyn i'r adroddiad hwn ddychwelyd i'r pwyllgor gan nad oeddent yn fodlon â'r sicrwydd rhesymol a roddwyd yn yr adroddiad gwreiddiol.

Holodd yr aelodau pam, os oedd yr argymhellion wedi newid, bod y lefel sicrwydd wedi aros yr un fath. A oedd hyn oherwydd bod y penderfyniad yn dibynnu ar ystadegau, h.y., roedd nifer yr argymhellion a wnaed yn cael eu hystyried yn sicrwydd rhesymol?

Cytunwyd bod angen gwneud rhagor o waith ar hyn ac i gynnal cyfarfod â'r partïon perthnasol erbyn diwedd mis Chwefror gan gynnwys aelodau'r pwyllgor, i ddeall sail resymegol yr adroddiad.

**Cam Gweithredu A59 – Bod cyfarfod yn cael ei drefnu i drafod yr adolygiad o Ddiogelu Data a chael eglurder ar ganlyniad sicrwydd rhesymol.**

## 10. Ystyried adroddiad ar Safonau Llywodraethu Archwilio

Derbyniodd yr aelodau gyflwyniad mewn perthynas â'r Safonau Llywodraethu Archwilio diwygiedig.

Yn dilyn y cyflwyniad gofynnodd yr aelodau bod y cylch gorchwyl ar gyfer y pwyllgor yn cynnwys gwybodaeth mewn perthynas â'r Safonau Llywodraethu Archwilio.

**Cam Gweithredu A60 – Bod cylch gorchwyl y Cydbwyllgor Archwilio yn cynnwys gwybodaeth mewn perthynas â'r Safonau Llywodraethu Archwilio.**

**Cam Gweithredu A61 – Dosbarthu'r cyflwyniad diwygiedig ar Safonau Llywodraethu Archwilio i'r aelodau er gwybodaeth.**

## 11. Ystyried adroddiad diweddaru ar Argymhellion Archwilio Mewnol Adnoddau Dynol

Cyflwynodd SC adroddiad diweddaru mewn perthynas â'r argymhellion a wnaed i Adnoddau Dynol fel rhan o adolygiadau archwilio mewnol.

Dywedwyd wrth yr aelodau bod cryn dipyn o waith wedi'i wneud ac ar hyn o bryd roedd tri argymhelliad yn weddill a fyddai'n cael eu cwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2025.

Gofynnodd yr aelodau am wybodaeth am yr adolygiadau o bolisïau a oedd wedi achosi pryder wrth ystyried yr adroddiadau gwreiddiol. Dywedodd SC fod 15 o bolisïau wedi'u cwblhau a thri ar y gweill. Gofynnodd yr aelodau i'r sefyllfa ddiweddaraf gael ei darparu y tu allan i'r cyfarfod.

**Cam Gweithredu A62 – Bod dogfen yn cael ei dosbarthu y tu allan i'r cyfarfod yn amlygu'r gwaith a wnaed i ddiweddaru polisïau perthnasol sydd hefyd yn nodi'r rhai sy'n mynd rhagddynt ac sy'n weddill.**

## 12. Ystyried adroddiad diweddaru mewn perthynas â'r Adolygiad Telemateg

Ystyriodd y pwyllgor adroddiad diweddaru mewn perthynas â'r adolygiadau telemateg. Croesawodd yr aelodau'r gwaith a wnaed mewn perthynas â'r argymhellion yn yr adolygiad gwreiddiol.

Gofynnwyd cwestiwn mewn perthynas â rhai o'r ffigurau mewn rhai ardaloedd o'r heddlu a theimlent eu bod yn is na'r disgwyl o ystyried daearyddiaeth yr ardal. Derbyniodd RL fod hwn yn bwynt dilys, a dylid nodi ei bod yn her weithiau i gael data cerbydau ar gyfer y meysydd hyn, ond, o gymharu â heddluoedd tebyg, dyma'r norm yn gyffredinol.

Cytunwyd y byddai dadansoddiad pellach o'r defnydd o gerbydau yn cael ei wneud yn y Bwrdd Fflyd Strategol a fyddai'n cynnwys yr aelod Cyd-bwyllgor Archwilio perthnasol fel sylwedydd.

**13. Ystyried adroddiad diweddaru mewn perthynas â'r Adolygiad Cydweithredol Iechyd a Diogelwch**

Ystyriodd y pwyllgor adroddiad diweddaru yn dilyn yr Adolygiad Cydweithredol Iechyd a Diogelwch diweddar. Hysbyswyd yr aelodau o'r cychwyn cyntaf bod un o'r camau a godwyd gan y pwyllgor mewn perthynas â siarad â Heddlu Gogledd Cymru ar ddefnyddio taenlenni yn dal i fynd rhagddo a byddai diweddariad yn cael ei ddarparu pan fydd yr wybodaeth ar gael – cam gweithredu A45 o gyfarfod mis Rhagfyr.

Mynegodd yr aelodau bryder ynghylch y lefel isel o gydymffurfedd mewn perthynas â phrofion dyfeisiadau cludadwy a chadarnhaodd SB fod hyn yn flaenoriaeth a'i fod yn cael sylw ledled ardal yr heddlu i sicrhau gwelliant mewn cydymffurfedd.

Gofynnodd yr aelodau am eglurder ynghylch cofnodi ymosodiadau a dywedwyd wrthynt fod hyn yn cael ei gofnodi dan ymgyrch Hampshire sy'n cofnodi pob digwyddiad, gan gynnwys digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd.

Rhoddodd SB wybodaeth i'r pwyllgor am broses yr adolygiad gwreiddiol a dywedodd ei fod yn teimlo nad oedd digon o amser i gytuno ar gwmpas cyn i'r adolygiad ddechrau. Yn ystod yr adolygiad, nodwyd hefyd bod gwahanol archwilwyr wedi cwblhau'r adolygiadau mewn heddluoedd gwahanol, ac arweiniodd hyn at anghysondeb yn y canfyddiadau gan i gwestiynau gwahanol gael eu gofyn mewn gwahanol ardaloedd. Gofynnodd yr aelodau i TIAA am sylwadau ac ymddiheurodd JM am y ffordd yr ymgymerwyd â'r adolygiad ac y byddai gwersi'n cael eu dysgu ar gyfer pob adolygiad yn y dyfodol.

**14. Ystyried a chytuno ar Gynllun Archwilio Mewnol 2025/2026**

Ystyriodd yr aelodau'r cynllun a chytunwyd ar y Cynllun Archwilio Mewnol drafft ar gyfer 2025/2026

**15. Adroddiad diweddaru ar Reoli Gwybodaeth**

Ystyriodd yr aelodau adroddiad diweddaru ar Reoli Gwybodaeth a thynnu sylw at eu gwerthfawrogiad o'r gwaith a oedd wedi'i wneud ers dyfarniad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Llongyfarchodd yr aelodau DJ a'r tîm a fu'n ymwneud â gwella perfformiad a gofynnwyd am ddiweddariadau bob chwe mis.

**Cam Gweithredu A63 – Bod adroddiadau diweddaru mewn perthynas â rheoli gwybodaeth yn cael eu hystyried gan y pwyllgor bob chwe mis.**

**16. Cofrestr Risg yr Heddlu**

Ystyriodd yr aelodau gofrestr risg yr heddlu a dywedwyd wrthynt fod y risg yn ymwneud â fformiwla ariannu'r heddlu i'w hadolygu ym mis Mawrth oherwydd nad yw'r cofnod presennol yn adlewyrchu beth yw'r risg mewn gwirionedd. Gall ddiflannu o'r gofrestr risg yn ei ffurf bresennol ond bydd unrhyw gofnod newydd yn cadw hanes y risg gwreiddiol.

**17. Cofrestr Risg SCHTh**

Ystyriodd yr aelodau gofrestr risg SCHTh a chawsant wybod bod y risg hon wedi'i thynnu oddi ar y gofrestr yn dilyn cadarnhad swyddogol o gyllid y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer 2025/2026.

Hysbyswyd y pwyllgor hefyd, er bod y risg mewn perthynas â'r Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol wedi bod ar y gofrestr am gyfnod sylweddol o amser, y byddai'n parhau felly hyd y gellir rhagweld gan ei fod yn dal i fod yn risg.

**18. Diweddariad ar Weithgarwch Twyll**

Dywedwyd wrth yr aelodau bod dau achos ar y gweill ar hyn o bryd. Un yn ymwneud ag ymgymryd â buddiant busnes wrth adrodd yn absennol o'r gweithle. Roedd yr ail yn ymwneud ag ymchwiliad mewn perthynas â honiadau am hawliadau twyllodrus a wnaed o ganlyniad i wrthdrawiad.

**19. Diweddariadau gan yr aelodau**

Nid oedd unrhyw ddiweddariadau gan yr aelodau.

**20. Unrhyw Fater Arall**

Rhoddodd NE ddiweddariad i'r pwyllgor ar fynediad i TGCh ar gyfer cyfarfodydd. Nodwyd bod y profion wedi'u cwblhau a bod canllawiau ar ddefnydd wedi'u caboli. Gobeithir cwblhau hyn erbyn cyfarfod nesaf y pwyllgor.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf:**

Heddlu Police
DYFED-POWYS

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

**26 Mawrth 2025 – Y Cydbwyllgor Archwilio**

| | CRYNODEB O’R CAMAU GWEITHREDU O’R CYFARFOD AR (29 Ionawr 2025) | | |
|---|---|---|---|
| **Rhif y cam gweithredu** | **Crynodeb o’r cam gweithredu** | **I’w symud ymlaen gan** | **Cynnydd** |
| A 49 | Bod y polisi chwythu’r chwiban diwygiedig yn cael ei ddosbarthu i’r aelodau. | NE | **Wedi’i gwblhau** – dosbarthwyd y dogfennau polisi a gweithdrefn diwygiedig ar 20 Chwefror 2025. |
| A 50 | NE i ail-wylio’r recordiad o gyfarfod mis Hydref a nodi a oes unrhyw gamau gweithredu heb eu cymryd mewn perthynas â’r fframwaith rheoli risg. | NE | **Wedi’i gwblhau –** ail edrychodd NE ar recordiad cyfarfod mis Hydref a’r unig gam gweithredu a godwyd oedd mewn perthynas â’r Fframwaith Rheoli Risg a’r gofyniad i ddosbarthu hwn i’r aelodau. Rhannwyd yr wybodaeth ag aelodau ar 29 Tachwedd 2024. |
| A 51 | Bod cylch gorchwyl y Cyd-bwyllgor Archwilio yn cael ei gynnwys yn nogfen weithio’r cynllun gwaith | NE | **Wedi’i gwblhau –** Mae’r cynllun gwaith bellach yn cynnwys ystyriaeth o gylch gorchwyl y Cyd-bwyllgor Archwilio. |
| A 52 | Bod NE a GM yn cyfarfod i sicrhau bod dyddiadau cyfarfodydd yn cael eu halinio i alluogi’r pwyllgor i gyflawni ei gyfrifoldebau. | NE a GM | **Wedi’i gwblhau –** mae cyfarfod wedi’i gynnal a chadarnhawyd bod holl ddyddiadau’r cyfarfodydd wedi’u halinio er mwyn galluogi’r pwyllgor i gyflawni ei gyfrifoldebau. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| A 53 | JM i adolygu adroddiad SICA i sicrhau bod y dyddiadau cywir yn cael eu cynnwys. | JM | **Wedi'i gwblhau –** mae'r dyddiadau wedi'u diwygio a'u cynnwys yn adroddiad SICA ar agenda'r cyfarfod ar 26 Mawrth 2025. |
| A 54 | Bod TIAA yn ystyried y polisïau perthnasol fel rhan o'u hadolygiadau a'u cynnwys yn eu hargymhellion pan fo polisi wedi dyddio ac angen ei adolygu. | JM/FR | **Wedi'i gwblhau –** mae TIAA wedi cadarnhau, lle nodir bod polisi wedi dyddio yn ystod adolygiad, y bydd argymhelliad penodol yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad i sicrhau bod y polisi'n cael ei ddiweddaru mewn modd amserol. |
| A 55 | Bod adroddiad manylach ar adolygu polisi yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Bwrdd Pobl, Diwylliant a Moeseg. | NE | **Ar y Gweill –** bydd hwn yn cael ei gynnwys ar agenda cyfarfod nesaf y Bwrdd Pobl, Diwylliant a Moeseg. |
| A 56 | Bod y Bwrdd Sicrwydd Gwybodaeth yn monitro gweithrediad yr argymhellion yn yr adolygiad TGCh a Seiberddiogelwch ynghyd â diweddariadau ar hyfforddiant. | NE | **Wedi'i gwblhau –** bydd yr argymhellion yn yr Adolygiad TGCh a Seiberddiogelwch yn cael eu monitro'n rheolaidd gan y Bwrdd Sicrwydd Gwybodaeth. |
| A 57 | Bod TIAA yn ystyried sut i wella fformat yr adroddiadau i sicrhau llif mwy effeithlon ac adrodd yn ôl i aelodau y tu allan i gyfarfod ffurfiol. | FR a JM | **Wedi'i gwblhau –** bydd TIAA yn sicrhau bod adroddiadau'n cael |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | eu fformatio'n ddigonol i sicrhau eu bod yn hawdd eu deall ar gyfer yr aelodau. |
| A 58 | Gofyn am eglurhad ynghylch y lefelau yswiriant a briodolir i seiberddiogelwch. | NE | **Wedi'i gwblhau –** mae NE wedi cysylltu â'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a gadarnhaodd mai £100,000 yw'r yswiriant presennol, fodd bynnag, mae hyn yn destun adolygiad i sicrhau bod yswiriant yn ddigonol. |
| A 59 | Bod cyfarfod yn cael ei drefnu i drafod yr adolygiad o ddiogelu data a chael eglurder ar ganlyniad sicrwydd rhesymol. | FR a JM | **Wedi'i gwblhau –** Cyfarfod wedi'i gynnal ar 19 Chwefror ac adroddiad diwygiedig wedi'i gynnwys ar yr agenda ar gyfer 26 Mawrth 2025. |
| A 60 | Bod cylch gorchwyl y Cyd-bwyllgor Archwilio yn cynnwys gwybodaeth mewn perthynas â'r Safonau Llywodraethu Archwilio. | NE | **Ar y gweill –** bydd hyn yn cael ei gynnwys yn y cylch gorchwyl diwygiedig y bydd y pwyllgor yn ei ystyried yn ei gyfarfod a gynhelir ym mis Gorffennaf 2025. |
| A 61 | Bod y cyflwyniad diwygiedig ar Safonau Llywodraethu Archwilio yn cael ei ddosbarthu i'r aelodau er gwybodaeth. | NE | **Wedi'i gwblhau –** Dosbarthwyd y cyflwyniad i'r |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | aelodau ar 29 Ionawr 2025. |
| A 62 | Bod dogfen yn cael ei dosbarthu y tu allan i'r cyfarfod yn amlygu'r gwaith a wnaed i ddiweddaru polisïau perthnasol sydd hefyd yn nodi'r rhai sy'n mynd rhagddynt ac sy'n weddill. | NE | **Wedi'i gwblhau –** Dosbarthwyd yr wybodaeth i'r aelodau ar 19 Mawrth 2025. |
| A 63 | Bod adroddiadau diweddaru mewn perthynas â rheoli gwybodaeth yn cael eu hystyried gan y pwyllgor bob chwe mis. | NE | **Wedi'i gwblhau –** Mae adroddiadau diweddaru wedi'u cynnwys ar yr agenda ar gyfer y cyfarfodydd sydd i'w cynnal ym mis Gorffennaf 2025 ac Ionawr 2026. |